

**VOLUNTARY
ACTION
GWEITHREDU
GWIRFODDOL**

**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**



**Adroddiad Blynyddol
2016-17**

Datganiad Cenhadaeth

Cynyddu **graddau, ansawdd ac effaith gweithredu gwirfoddol** ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy **gefnogi, cynrychioli a chynorthwyo** sefydliadau'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.

Achosi newid drwy wella llesiant unigolion, sefydliadau a chymunedau.

Gweledigaeth

- Bod yn **ganolbwynt rhagoriaeth ym Merthyr Tudful** ar gyfer darparu gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.
- Creu cymuned iach** drwy helpu i ddatblygu sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion, gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli a rhannu ein gweledigaeth â'r holl randdeiliaid.



**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**

Canolfan Gweithredu
Gwirfoddol
89-90 Pontmorlais,
Stryd Fawr, Merthyr Tudful
CF47 8UH

Ffôn: 01685 353900
Ffacs: 01685 353909
enquiries@VAMT.net



@VAMTtweets
@VAMTvolunteer
@merthyrMAGNET
@onevoicemt
@c1stsouth



www.vamt.net



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**



Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagair oddi wrth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog



Ian Davy
Prif Swyddog



Brian Lewis
Cadeirydd

Rydym yn falch o gyflwyno ugeinfed Adroddiad Blynyddol Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Ymddengys fel amser hir ers i ddau aelod o'r staff agor drws swyddfa llawr uchaf yn Nhy Oldway i nodi diwrnod cyntaf gweithrediadau GGMT ym mis Ebrill 1997. Roedd y Pwyllgor Gweithredol, o dan gadeiryddiaeth John Meredith MBE wedi bod yn cwrdd ers Tachwedd 1996, yn dilyn Cyfarfod Agoriadol GGMT yn gynharach y mis hwnnw.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, cafwyd mynd a dod o ran ymddiriedolwyr a staff. Mae un neu ddau wedi gadael ac yna dychwelyd. Mae rhai yn parhau i fod yma a nifer o rai eraill wedi cyfrannu nifer o flynyddoedd o wasanaeth. Mae prosiectau wedi mynd a dod gyda'r cylchedd ariannu ond mae nodau craidd GGMT wedi aros yn ddigon tebyg – sef hyrwyddo a datblygu gwirfoddoli a sefydliadau'r trydydd sector yn y Fwrdeistref Sirol hon.

Er gwaethaf cwtdogi ar arian craidd am y seithfed blwyddyn yn olynol, mae GGMT yn parhau i gyflawni canlyniadau fel y gobeithiwn sy'n cael eu harddangos yn yr adroddiad hwn. Yn ychwanegol at ein gwaith craidd, mae ein partneriaid wedi parhau i ariannu Cydlynwyr Cymunedol a Chynllun Grant Galluogi'r Gymuned oddi wrth Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru. Cafodd y prosiectau hyn werthusiad da iawn, fel

Cymunedau yn Gyntaf Clwstwr y De a MAGNET. Mae'r adroddiad blynyddol hwn, yn wahanol i'w fformat arferol, ac yn dangos rhai uchafbwyntiau o'r prosiectau hyn wrth i Gymunedau yn Gyntaf a MAGNET ddod i ben yn 2018.

Mae GGMT yn parhau i gydweithio â'n cymydog, Interlink RCT, a gweithio gyda'n gilydd ar weithredu rhanbarthol fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, hyfforddiant diogelu a gwirfoddoli.

Fel Cadeirydd a Phrif Swyddog, rydym yn ymroddedig i sicrhau ein bod yn aros fel sefydliad effeithiol â'r nod o hwyluso trydydd sector cryf a dylanwadol a gwella gwirfoddoli ym Merthyr Tudful. Dim ond â thîm o ymroddedig o ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr y gallwn gyflawni hyn.

Yn olaf, rhaid i ni fanteisio ar y cyfle i ddiolch i brif ariannwyr GGMT am eu cefnogaeth barhaus sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a Chronfa Fawr y Loteri. Diolch hefyd i Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am eu cefnogaeth parhaus.

Ffeithiau a Ffigurau

Dinasyddion actif a chyfranogol

Nifer o wirfoddolwyr a leolwyd (pob oed) **162**

Nifer o ymholiadau am arferion da o ran rheoli gwirfoddolwyr **38**

Aelodaeth

Aelodaeth cyfan **269**



Pentre Byd Eang 2016

Ymgysylltu'n effeithiol â pholisi

Nifer o grwpiau cynllunio / gwaith strategol yn cynnwys aelodau'r trydydd sector **64**

Nifer o fforymau'r trydydd sector neu rwydweithiau a gefnogwyd **4**



Pentre Byd Eang 2016

Trydydd sector sy'n ffynnu ac yn gynaliadwy

Nifer o sesiynau ymweld â'r wefan **41,521**

Cyfanswm o ymholiadau a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt **3,425**

Nifer o gylchgronau/ papurau newydd a gyhoeddwyd **7**

Nifer sy'n derbyn pob rhifyn **525**

Nifer o ymholiadau ymddiriedolwr a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt **42**

Nifer o ddigwyddiadau ymddiriedolwyr a drefnwyd **2**

Nifer o gyfranogwyr **22**

Nifer o ymholiadau cyngor ariannu a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt **49**

Nifer o ddigwyddiadau ariannu a drefnwyd **1**

Nifer o gyfranogwyr **42**

Swm yr arian a gafwyd oddi wrth grwpiau fel yr hysbyswyd yn ystod y cyfnod **£147,431**

Nifer o gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd **28**

Nifer o gyfranogwyr **258**

Nifer o sefydliadau newydd / mentrau cymdeithasol neu wasanaethau newydd a ddatblygwyd **12**

Swm yr arian a ddarparwyd drwy grantiau / cynlluniau benthyca **£359,450**

Rhai Uchafbwyntiau

Dinasyddion actif a chyfranogol

- Cynhaliwyd digwyddiad **'Dathlu Gwirfoddolwyr'** yn Red House ym Merthyr Tudful. Cafodd tystysgrifau a oedd wedi eu dylunio'n arbennig eu hardystio gan Dawn Bowden AC a Gerald Jones AS.
- Yng Nghyfarfod Cyffredinol GGMT, cyflwynodd Dawn Bowden AC **Wobr Nicola Park** i Merthyr Mendicants am eu "Cyfraniad Eithriadol i Wirfoddoli ym Merthyr Tudful".



Merthyr Mendicants

- **Gwasanaeth allgymorth llwyddiannus wedi ei sefydlu yn y Ganolfan Waith** gan gyflawni canlyniadau da iawn.
- Staff Llywodraeth Cymru a gefnogir ac a leolir ym Merthyr Tudful yn ymgymryd â **phrosiectau gwirfoddoli cyflogai**.
- Cafodd sesiwn fer ei chynnal i sefydliadau sy'n ymgysylltu â gwirfoddolwyr am y **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**. Daeth 45 o gyfranwyr i'r sesiwn.
- Sefydlwyd **Fforwm Rheoli Gwirfoddolwyr** gyda 12 sefydliad yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf.



Trydydd sector sy'n ffynnu ac yn gynaliadwy

- **Cylchgrawn** – Pedwar rhifyn o gylchlythyr copi caled GGMT, Inform, wedi cael eu cyhoeddi.
- **Cyfyngau Cymdeithasol**
 - Mae gan brif gyfrif Twitter GGMT, sef @VAMTtweets, 1341 o ddilynwyr ac ar dudalen Facebook GGMT Facebook, mae 211 o bobl wedi ei hoffi.
 - Tudalen Canolfan Gwirfoddolwyr Merthyr Tudful ar Facebook wedi cael ei hoffi 573 gwaith ac mae 469 o ddilynwyr ar Twitter @VAMTvolunteer
 - Tudalen Gofalwyr Merthyr Tudful ar Facebook wedi cael ei hoffi 60 o weithiau ac mae 274 o ddilynwyr ar Twitter: @merthyrcarers
- Mae 42 o sefydliadau wedi derbyn **cyngor rheoli** a chymorth yn ystod y flwyddyn
- Mae 49 o sefydliadau wedi derbyn **cyngor ariannu** a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Mae GGMT yn gwneud gwaith ysgrifenyddiaeth i **Ymddiriedolaeth Cymunedol Merthyr Tudful** sy'n ymddiriedolaeth elusennol annibynnol fach sy'n rhoi grantiau bach i grwpiau bach. Eleni, gwnaethant roi 16 o grantiau i gyfanswm o £3,500. Yn ychwanegol, trefnodd staff GGMT gwis codi arian ar gyfer elusen gan godi £755.
- Gweinyddu Gwobr Tlws Grisial / **Crystal Trophy Award** ar ran partneriaid. Cafodd 27 o geisiadau eu hadolygu yn erbyn meini prawf gosodedig. Cafodd y pedwar ymgeisydd ar y brig eu dethol a'u gwahodd i seremoni wobrwyo i gyflwyno eu prosiectau ac i glywed canlyniad penderfyniadau'r panel.
- **Diogelu** - wedi cefnogi nifer o sefydliadau ynghylch materion â'r broses ddiogelu, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu datrys ac roedd newidiadau i'r system adrodd yn ôl yn ofynnol i bob un. Yn ychwanegol:
 - Mae hyfforddiant diogelu wedi cael ei gyflenwi i 30 o unigolion.
 - Cafodd 18 o unigolion o amrywiaeth o sefydliadau eu cefnogi mewn dau ymweliad grŵp i MASH (Multi Agency Safeguarding Hub) y Rhanbarth.
- Yn allweddol o ran sefydlu **Sied Dynion Merthyr Tudful** yn dilyn dynodi bylchau mewn gweithgareddau a grwpiau cymdeithasol yn benodol i ddynion yn y fwrdeistref sirol. Cafodd y Sied Dynion ei lansio gyda gweithgareddau fel pysgota, ymarfer corff hawdd, celf, gwau a theithiau cerdded tywys.



Girl Guides



Leisure Trust



Footsteps to Family Connections

Dathlu Gwirfoddolwyr



3 Gs



Elite Supported Employment Agency



Hallmark Care Home – Greenhill Manor Care Home



High Street Baptist Church



Merthyr Tydfil Borough Council



Foodbank

Ymgysylltiad effeithiol â pholisi

- Hwyluso'r **Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant** bob yn ail fis
- Hwyluso **Fforwm Sefydliadau Plant a Phobl Ifanc** yn chwarterol
- Hwyluso **"Sgwrs â Dawn Bowden AC"** – Mynychwyd gan ugain cynrychiolydd o'r trydydd sector i wrando ar drafodaeth eang ynghylch problemau a phryderon.
- Parhaodd **Rhwydwaith Strategaeth Gofalwyr** i gwrdd yn chwarterol gan ymddwyn fel cwndid i mewn i Grŵp Partneriaeth Gofalwyr Cwm Taf, ac y mae pedwar ohonyn nhw sy'n bartneriaid Trydydd Sector yn aelodau bellach.
- Cafodd **Cerdyn Argyfwng Gofalwyr** ei gyflwyno ym mis Mehefin 2016.
- Trefnwyd **Hyfforddiant** gyda phartneriaid statudol ar gyfer gofalwyr di-dal a'i gyflenwi gyda Chymorth Cyntaf a Symud a Chario mewn ymateb i ddiddordeb y gofalwyr.
- **Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus** – Mae GGMT (ac Interlink) yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf newydd sy'n gorff a gyfunwyd ar gyfer RhCT a Merthyr Tudful a **Bwrdd Partneriaeth Strategol** newydd Cwm Taf a saif o dan y BPS.
- **Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (y Ddeddf)** – Mae GGMT yn aelod annatod o'r strwythur i gefnogi gweithredu'r Ddeddf. Yn ychwanegol, mae'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn arwain o ran capasiti llif gwaith y gymuned adeiladu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu'r **Fforwm Gwerth Cymdeithasol** sy'n ofyniad o'r Ddeddf ac yn cael ei arwain ar y cyd gan y Cyngorau Gwirfoddol Sirol.

Cymunedau yn Gyntaf, Clwstwr y De

Ebrill 2013
– Mawrth
2017



Rhai uchafbwyntiau

- **2013 – 14 Dysgu:** Roedd cyflwyno rhaglen FAST, Cronfa Achub y Plant, i ysgolion cynradd y clwstwr yn llwyddiant ysgubol. Daeth â rhieni, plant, athrawon a'r gymuned ehangach ynghyd, i wneud yn siŵr fod plant ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu potensial yn yr ysgol – ac mewn bywyd, Gan gychwyn yn Ysgol Gynradd Beddliwynog a'i werthuso'n annibynnol gan Brifysgol Middlesex derbyniodd y rhaglen adolygiadau ardderchog gan gael ei hestyn wedi hynny i Ysgolion Cynradd Troedyrhiw ac Edwardsville.
- **2014 – 15 Ffyniannus:** Roedd Clybiau Gyrfaeoedd Cymunedol yn parhau i gael eu rhedeg leded ardal y Clwstwr gan gefnogi aelodau'r gymuned i ysgrifennu CV effeithiol, defnyddio Universal Job Match, bodloni amodau Lwfans Ceiswyr Gwaith a chwblhau ceisiadau am swydd. Galluogodd cyrsiau hyfforddi mewn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu a Diogelwch Personol Trac, i gyfranogwyr gael cyflogaeth gydag adeiladu a'r rheilffordd. O ganlyniad i'r clybiau hyn, cafodd 15 o bobl eu cyflogi tra bo 8 arall wedi sicrhau swyddi JGW ac fe gafwyd 90 o gymwysterau yn berthnasol i waith.



- **2015 – 16 Iechyd:** Cafodd Llythrennedd Corfforol ei gyflwyno i'r holl ysgolion mae'n helpu plentyn o ran cymhelliant, hyder, cymhwyster corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth, wrth gefnogi ei ddatblygiad mewn seiliau symudedd, sydd yn ei dro yn adeiladu hyder a sgiliau i gyfranogi mewn gweithgaredd corfforol hir dymor. Dros y flwyddyn rydym wedi ymgysylltu â 460 o bobl ifanc sydd wedi gwella eu lefelau ffithrwydd i gyd.
- **2015 – 16 Dysgu:** Roedd clybiau Gwaith Cartref yn rhedeg bob wythnos yn Ysgol Uwchradd Afon Taf o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Roedd y ffocws yn bennaf ar Fathemateg. Mae clwb gwaith cartref generig yn cael ei redeg bob dydd lau, ble y caiff disgyblion eu hannog i ddod â'u gwaith cartref ac maen nhw'n cael eu cefnogi gan athrawon tra'u bod nhw hefyd yn cael mynediad at offer TGCh. O ganlyniad i'r clybiau hyn, mae lefelau cyrhaeddiad TGAU Lefel 2 yn cynnwys graddau A* i C yn cynnwys Mathemateg a Saesneg yn dangos cyfradd llwyddo o 90%. Cafodd y prosiect hwn ei gydnabod hefyd gan Academi Llwyddiant Merthyr Tudful, fel y Gweithgaredd All-gwricwlaidd gorau a chafodd ei wobrwyo â Gwobr Gwneud y Gwahaniaeth yn yr Ysgol ar gyfer 2015.
- **2016 – 17 Iechyd:** Darparwyd Rhaglen Cyd-chwarae gan Ganolfan Plant a'r Teulu y Drindod, gan gyflenwi amrywiaeth o sesiynau a gweithgareddau yn ystod sesiynau 2 awr. 1 awr – plentyn a rhiant ynghyd gyda Rhiant gydag Asiantaeth i ddilyn tra bo'r plentyn yn cael ei ofalu gan y staff.
- **2016 – 17 Iechyd:** Darparwyd Cefnogi Cymheiriaid i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Afon Taf yng Nghlwb Bechgyn a Merched Treharris. Darparwyd y rhaglen hon yn dilyn trafodaethau â Gweithwyr Ieuencid a leolir yn y clwb a oedd wedi mynegi pryderon ynghylch iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc sy'n mynychu'r clwb. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac wedi cael derbyniad da gan y bobl ifanc a'r staff yn y clwb.
- **2016 – 17 Ffyniannus:** Clybiau Gofalwyr Cymunedol, cafodd y cwrs 'Cyflwyniad i Adeiladu' ei gynnal fel prosiect partneriaeth rhwng Cymunedau yn Gyntaf, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful a oedd yn adeiladu 23 o dai, Keepmoat Construction a Chymunedau ar gyfer Gwaith. Cafodd y rhaglen bythefnos o hyd ei chynllunio i gefnogi 12 o bobl leol ddi-waith i ennill sgiliau a chymwysterau angenrheidiol i ddechrau gyrfa yn y diwydiant adeiladu.



Cronfa Gofal Integredig



Wedi ei sefydlu yn 2014 o dan Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru (y Gronfa Gofal Integredig bellach), cafodd Cydlynwyr Cymunedol eu cyflwyno i helpu i wella perthnasoedd a chyswllt rhwng lechyd, awdurdod lleol, trydydd sector a thai. Maen nhw wedi sefydlu eu hunain fel 'gwasanaeth mynd ato' ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o gwmpas darpariaeth gwasanaeth trydydd sector, ac maen nhw'n cefnogi partneriaid ar draws yr holl sectorau, a dinasyddion eu hunain, i ymgysylltu â gwasanaethau lleol a gweithgareddau sy'n helpu i gynnal annibyniaeth a gwella llesiant.

Caiff eu gwybodaeth o gwmpas darparu gwasanaeth ei gynnal gan fapio parhaus o'r ardal leol sy'n eu galluogi nhw i gymeradwyo atebion amgen i ffurfioli pecynnau gofal.

Hefyd, mae eu deallusrwydd ynghylch bylchau mewn darpariaeth yn galluogi'r Cyngorau Gwirfoddoli i helpu i ddylanwadu ar ddatblygiad newydd fel cynlluniau cyfeillgarwch newydd a gyflwynwyd drwy Gynllun Grant Galluogi'r Gymuned.

- Dangosodd canfyddiadau o **Arolwg Rhanddeiliaid** yn 2016 fod ymatebwyr yn rhoi gwybod am 73% o gynnydd mewn hyder o ran ansawdd gwasanaethau a gyflenwyd gan y trydydd sector. Gwnaeth 100% roi gwybod am gynnydd mewn gwybodaeth am wasanaethau a gynigiwyd gan y trydydd sector.
- **1070 cyfeiriadau** ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi eu derbyn rhwng Ebrill 2016 ac Ionawr 2017. Canlyniad hyn oedd bod **2032** o unigolion yn cael eu harwyddbostio tuag at wasanaethau a gweithgareddau wedi eu lleoli yn y gymuned, a thros **470** wedi eu cefnogi'n uniongyrchol gan y tîm i gael mynediad at wasanaethau neu gefnogaeth briodol.
- Mae'r tîm yn gweithio'n weithredol ag **88%** o feddygfeydd Meddygon Teulu ledled Cwm Taf ac yn parhau i froceru sefydliadau trydydd sector i mewn i Ofal Sylfaenol ar gyfer gwella cysylltiadau.
- Roedd **293 o bobl** yn bresennol mewn 12 o sesiynau chwalu myth fflw a drefnwyd ac a hwyluswyd gan y tîm. Canfu 100% o'r cyfranogwyr fod y sesiwn yn ddefnyddiol gan ddweud ei bod yn codi eu hymwybyddiaeth o ran imiwneiddiad a'u pwysigrwydd i iechyd a llesiant.


Cynllun Grant Galluogi'r Gymuned

Ar ran Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gwnaeth GGMT weinyddu'n llwyddiannus Gynllun Grant Gofal Integredig arall, gan wobrwyo gwerth £120,000 o arian nawdd i 15 sefydliad. Wedi eu dewis am eu hymagwedd arloesol, gwnaeth y prosiectau hyn gyflenwi gwasanaethau rhwng Hydref 2016 a Mawrth 2017. Roedd peth o'u gwaith yn cynnwys:

- **Datblygu gerddi therapiwtig** mewn 2 gartref preswyl, ochr yn ochr â rhaglen yn seiliedig ar arddwriaeth therapiwtig yn cynnwys 25 o weithgareddau i breswylwyr
- **Darparu amrywiaeth o gyfleoedd iechyd a llesiant**, yn cynnwys gweithgareddau corfforol fel grwpiau cerdded a sesiynau dawnsio ble yr adroddodd 100% o fuddiolwyr eu bod wedi mwynhau'r gweithgaredd a 80% wedi adrodd bod eu hyder wedi gwella. Cyflwyno menter pêl-droed cerdded, ymgysylltu â 34 o gyfranogwyr newydd mewn sesiynau wythnosol a symud ymlaen at gemau cystadleuol ledled ardaloedd daearyddol ehangach.
- **Darparu rhaglenni penodol o weithgareddau** i unigolion a oedd wedi cael y profiad o **ganser y fron** a **chyn ofalwyr** hefyd i'w helpu nhw i ail-integreiddio/parhau i fod yn gymdeithasol-gysylltiedig yn eu cymunedau.
- **Darparu cyngor/cymorth 1:1 ynghylch tai ac anghenion dynodedig**, gan arwain at uchafswm o incwm dros £32,000 yn cael ei gyflawni. Hefyd, ymgymryd â mân addasiadau i 85 o dai a 41 o wiriadau cartrefi iachus, y cyfan yn cyfrannu at atal cwympo a helpu unigolion i gadw eu hannibyniaeth.
- **Ymgysylltwyd â chyfanswm o 100 o wirfoddolwyr**, yn cefnogi cyflenwi prosiect.



MAGNET



Portffolio yw MAGNET o 7 o brosiectau sy'n anelu at ymgysylltu â chymunedau ar yr ymylon i gryfhau eu llais wrth ddylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus a pholisi. Ei flwyddyn olaf ond un oedd 2016-2017, a disgwylir i'r amrywiol brosiectau ddod i ben yn ystod 2017-2018.



Merthyr Achieving Greater Networking & Engagement Together

Supported by



Rhai Ffeithiau a Ffigurau

Ymgysylltodd

3113 o blant a phobl ifanc â'r prosiect.

415 neges gadarnhaol am bobl ifanc a Merthyr Tudful

Yn aml, nid yw pobl yn sylweddoli fod Rhanbarth Dinas Caerdydd yn estyn mor bell i'r gogledd â Merthyr Tudful. Llewyrchodd y prosiect hwn oleuni ar Ferthyr. . . POSSIB, Adroddiad Terfynol Dawnsio'r Lingo


Mae fy hyder wedi gwella a fy sgiliau ynghylch sut i siarad o flaen pobl a phobl newydd (Cyfranogwr Perthyn)

Ymgysylltwyd â 3364 oedolyn

65 Fforwm neu fecanwaith ymgysylltu wedi eu sefydlu neu eu cefnogi

Datblygu 18 gwasanaeth newydd

70 polisi/gwasanaeth cyhoeddus wedi eu dylanwadu neu newid i ddyfod yn fwy priodol



Mae'n brosiect da i weiddi allan beth sy'n dda am Ferthyr Tudful, nad yw neb arall yn ei weld (Gohebydd Ifanc Tyfu a Datblygu)

216 cynrychiolydd sector cyhoeddus yn adrodd yn ôl am ddealltwriaeth well o ymgysylltu â dinasyddion

489 person o gymunedau yn adrodd yn ôl eu bod yn fwy cadarnhaol ynghylch, neu'n fwy cynwysedig i gael gwrandawriad a dylanwadu ar wasanaethau.



Er bod deddfwriaeth wedi newid, mae angen i agweddau cymdeithas a gwasanaethau newid (Cynfranogwr Gweladwy)

Heb Bwynt Ffocal, dydw i wir ddim yn credu y byddai popeth wedi mynd cystal ag yr aeth. . . Rwyf yn ddiolchgar iawn fy mod i wedi gallu eu harwyddbostio i Bwynt Ffocal am esboniad pellach a chymorth. (USDW)

Datganiad Gweithgareddau Ariannol

(yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant)

Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017

	2017			2016
	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £	Cyfanswm £
Incwm				
Rhoddion a Chymynrhoddion	4,700	-	4,700	-
Incwm o weithgareddau elusenol:				
Grantiau a chytundebau	195,488	1,479,611	1,675,099	1,444,409
Costau Rheoli	59,516	7,416	66,932	92,562
Incwm o weithgareddau masnachol eraill:				
Incwm rhent a llety	70,901	-	70,901	60,559
Ffôn a phost	9,375	-	9,375	9,128
Incwm hyfforddiant	270	-	270	1,900
Incwm buddsoddi	2,647	-	2,647	1,129
Incwm arall	1,172	10,578	11,750	9,275
Cyfanswm yr Incwm	344,069	1,497,605	1,841,674	1,618,962

Gwariant

Gwariant ar weithgareddau elusenol	358,113	1,213,416	1,571,529	1,620,520
Cyfanswm y Gwariant	358,113	1,213,416	1,571,529	1,620,520
Incwm Net/(Gwariant) ar gyfer y flwyddyn	(14,044)	284,189	270,145	(1,558)
Trosgwlyddiadau rhwng cronfeydd	(6,750)	6,750	-	-
Symudiad Net mewn cronfeydd	(20,794)	290,939	270,145	(1,558)
Cyfanswm y cronfeydd	626,780	58,654	685,434	686,992
Cyfanswm y Cronfeydd wedi eu cario drosodd	605,986	349,593	955,579	685,434

Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol yn cynnwys enillion a cholledion y flwyddyn. Mae pob incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaol.

Hyd at 31 Mawrth 2017

	2017	2016
	£	£
Asedau Sefydlog		
Asedau diriaethol sefydlog	305,759	329,788
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr	138,934	393,271
Arian yn y banc ac arian parod	679,403	154,495
	818,337	547,766
Dyledion:		
Symiau fydd angen eu talu oddi fewn i'r flwyddyn	168,517	192,120
Asedau Cyfredol Net	649,820	355,646
Asedau Net	955,579	685,434
Cronfeydd		
Cronfeydd incwm anghyfngedig	605,986	626,780
Cronfeydd incwm cyfyngedig	349,593	58,654
Cyfanswm y Cronfeydd	955,579	685,434

Bwrdd ac Aelodau Staff



Gwirfoddolwyr Derbyfya GGMT

Bwrdd 2016/2017

Enwau'r Cyfarwyddwyr

Brian Lewis – Cadeirydd
Helen Thomas – Is-gadeirydd
Paul Gray – Trysorydd
Nicola Mahoney
Ceinwen Statter
Maria Thomas
Huw Williams
Anne Roberts
Laura Guard (tan fis Tachwedd 2016)
Ruth Hopkins (o fis Tachwedd 2016)

Gwirfoddolwyr

Louise Patterson
Helen Mahoney
Kevin Eddy
Sarah Gibbon
Selina Williams
Kay Powell
Marion Price
Diane Sheppard
Martin Williams

Aelodau'r Staff 2016-2017

Alison Harris	Swyddog Trydydd Sector
Amy Jones	Cymunedau yn Gyntaf - Swyddog Cynhwysiant Cymunedol (tan fis Mawrth 2017)
Bethan Evans	Cymunedau yn Gyntaf – Gweithiwr Allweddol Cyswllt â Theuluoedd
Bethan Morgan	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Perfformio a Monitro (tan Awst 2016)
Carol Hindley	Rheolwr Gweinyddol a Chyllid
Claire Williams	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Arwain Cymunedau Dysgu
Darcy White	Cynorthwydd Clercaidd
Deanne Rebane	Cydllynydd Cymuned Gofal Sylfaenol
Elaine James	Cydllynydd Cymunedol Merthyr Tudful
Emma McCarthy	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Perfformio a Monitro (o fis Tachwedd 2016 tan Ebrill 2017)
Frances Barry	Swyddog Gwirfoddoli / Gwirfoddoli Ieuenctid
Hannah Mills	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Arwain Cymunedau Ffyniannus (tan Ionawr 2017)
Hilary Edwards	Dirprwy Brif Swyddog
Ian Davy	Prif Swyddog
Karen Foley	Swyddog Gwirfoddoli
Ken Long	Rheolwr Cymunedau yn Gyntaf Clwstwr y De
Kendra Tarplee	Cymunedau yn Gyntaf – Prif Swyddog Cefnogi'r Teulu
Laura Johnson	Swyddog Gweinyddol a Chyllid
Maria Abson	Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl ¹
Maria Roberts	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Gweinyddol
Nia Williams	Swyddog Prosiect Un Llais (o fis Medi 2015)
Rachel Thomas	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Arwain Cymunedau Iachach
Rachel Wyatt	Swyddog Datblygu Ymglymiad Defnyddiwr Iechyd Meddwl
Sally Richards	Rheolwr Prosiect MAGNET (tan fis Mawrth 2017)
Sharon Richards	Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Rheolwr Prosiect Cronfa Gofal Integredig
Sian Musto	Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Gofalwyr (tan fis Mawrth 2017)

^{1 2} Rhannwyd gyda Interlink